



Lloriau

Darparu lloriau priodol mewn tai cymdeithasol

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Hydref 2020

Cynnwys

Crynodeb Weithredol

Adroddiad Llawn

Cefndir

Tai Cymdeithasol a Thlodi yn DU a Chymru

Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Darparu Tai Cymdeithasol yng Nghymru

Tai Cymdeithasol a Safonau Polisi yng Nghymru

Pam fod diffyg lloriau neu garpedi addas yn broblem i rentwyr cymdeithasol

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Yr effaith o fod heb garpedi neu loriau addas

Trafodaeth

Argymhellion

Adroddiad Llawn:

Cefndir

“(roedd fy llawr) wedi ei adael yn foel ac mewn cyflwr erchyll wrth symud i mewn. Dal fel hyn nawr. Methu fforddio llorio'r tŷ cyfan. O dyllau enfawr, i hoelion, bylchau i chwilod fynd i mewn, llifogydd a byrddau llawr rhydd ac ardaloedd peryglus lle mae'r plant yn brifo'u hunain. Rydw i wedi bod yn trwsio ers dwy flynedd fy hun” (Tenant)

Es i ymweld â fy mam a oedd wedi symud i mewn i eiddo tai cymdeithasol yn ddiweddar ac nid oedd ganddi loriau. Gan fy mod yn hynod naif ac yn newydd i'r sector tai, gofynnais iddi pryd roedd y landlord yn dod i ffitio'r carped. Dywedodd wrthyf y byddai'n rhaid iddi brynu carped gan na ddarparwyd hyn i denantiaid gan eu landlord, yn wahanol i hynny yn y sector rhentu preifat. Ni allwn gredu bod disgwyl i fy mam brynu carped, a hithau newydd gollu ei heiddo tŷ cyngor yr oedd wedi'i brynu flynyddoedd yn ôl oherwydd caledi ariannol. Gan fy mod yn berchennog tŷ newydd fy hun ac yn gorfod prynu lloriau, roeddwn i'n gwybod pa mor ddrud oedd hyn. Llwyddais i gael credyd di-log gan fod gennyf statws credyd da, ond nid yw hyn yn wir i'm mam a dadleuaf nad yw hyn yn wir am lawer o unigolion sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Roeddwn i'n teimlo'n hynod angerddol am hyn ac ni allwn ddeall pam nad oedd carped neu loriau o unrhyw fath yn cael eu darparu. Felly, Dechreuais ymchwilio'n ddyfnach i'r gyfraith i ddarganfod bod y safonau Ffitrwydd ar gyfer Cynefinoedd Dynol yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond lloriau yn yr ystafell ymolchi a'r toiled sy'n angenrheidiol. Yna dechreuais ofyn i grŵp o Rieni Sengl yng Nghymru am eu profiadau o dai cymdeithasol a chlywais am gymaint o sefyllfaoedd pryderus a oedd y realiti. [Dyma'r blog yr ysgrifennais o ganlyniad.](#)

Enillodd y blog ddiddordeb gan y sector a gwnaeth imi sylweddoli bod hwn yn fater enfawr yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Ni ddylid disgwyl i denantiaid ddarparu eu lloriau eu hunain pan mai diffiniad tai cymdeithasol yw darparu tai i bobl ar incwm isel. Bydd aelwyd sydd ar incwm isel yn ei chael hi'n anodd iawn i brynu lloriau.

Yna es i wirfoddoli gyda menter gymdeithasol fach yn RhCT o'r enw Greenstream Flooring. Maent yn darparu teils carped wedi'u hailgylchu i bobl am gost isel. Maen nhw'n cael y teils gan sefydliadau corfforaethol enfawr fel nad ydyn nhw'n mynd i safleoedd tirlenwi, sy'n cysylltu â'r agenda datgarboneiddio. Un diwrnod y mis, maen nhw'n cynnal diwrnod rhoddion lle maen nhw'n rhoi teils nad oes neb eu heisiau yn rhad ac am ddim. Dyma'r diwrnod y gwnes i wirfoddoli, ac ni allwn i gredu fy llygaid. Roedd teuluoedd ifanc, pobl hŷn, pobl sy'n gweithio, pobl nad oeddent yn gweithio ac ati; pawb yn ciwio i gael teils carped am ddim. Dechreuais ofyn iddynt pam eu bod yno: [dyma'r blog a ysgrifennais o ganlyniad.](#)

Fel y gwelwch yn y blog, es i a siarad â gwahanol ddarparwyr tai cymdeithasol i ddarganfod pam nad oeddent yn darparu lloriau.

Gweithiais gyda Tai Pawb oherwydd yr agwedd cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Gyda'n gilydd, bu inni ddatblygu cwestiynau i'w hanfon at landlordiaid a thenantiaid.

Mae tenantiaid tai cymdeithasol yn un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. I lawer, mae gallu fforddio dodrefn sylfaenol ar ddechrau tenantiaeth yn anodd iawn neu'n anghyraeddadwy. Er gwaethaf hyn, mae'n arfer cyffredin i osodiadau cymdeithasol newydd beidio â darparu'r rhain - a'r mwyaf sylfaenol o'r rhain yw carpedi neu loriau.

O ganlyniad, mae rhai tenantiaid cymdeithasol yn byw heb garpedi neu loriau priodol am nifer o flynyddoedd, a all, mewn llawer o achosion, gael effaith ddifrifol ar iechyd a lles oedolion a phlant.

Nod yr adroddiad hwn yw ystyried yr arfer sy'n gysylltiedig â gwagleoedd a lloriau ymhlith landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal ag archwilio profiadau tenantiaid cymdeithasol a'r effaith arnynt.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn sylfaen ar gyfer dull adeiladol o weithio gyda'n gilydd i archwilio a gwella arfer gosodiadau yng Nghymru.

Argymhellion

- Dylai darparwyr tai cymdeithasol ystyried defnyddio eu cronfeydd cymunedol neu eu cyllideb eu hunain i ddarparu grantiau i denantiaid na allant fforddio lloriau na charpedi addas. Yn enwedig y rhai sydd â risg uwch o dlodi tanwydd fel pensynwyr, y rhai sy'n anweithgar yn economaidd neu'n ddi-waith, teuluoedd â phlant ifanc neu bobl anabl neu denantiaid sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd.
- Dylai darparwyr tai cymdeithasol ymgysylltu â'u tenantiaid a cheisio darparu ffurflen ymwadiad i denantiaid newydd sy'n rhoi'r opsiwn o gadw hen loriau a dodrefn pan fo hynny'n berthnasol. Gellir ychwanegu hyn at delerau atodol contractau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), 2016 newydd.
- Mae gan ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru gyfle unigryw i gefnogi menter gymdeithasol a thenantiaid incwm isel yng Nghymru trwy fynd ati i ddewis defnyddio carped ailddefnydd / ail fywyd gan sefydliadau fel menter gymdeithasol o Gymru, *Greenstream Flooring*.
- Dylai Llywodraeth Cymru geisio adolygu arolwg Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) i gynnwys darparu lloriau priodol yn unol â'r adroddiad hwn.
- Dylai Llywodraeth Cymru geisio adolygu telerau'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a / neu gronfeydd argyfwng eraill, i gynnwys darparu lloriau priodol yn unol â'r adroddiad hwn
- Dylai darparwyr tai cymdeithasol ynghyd â Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno safon gwagle cenedlaethol neu egwyddorion gwagleoedd i gynnwys lloriau priodol. Dylai'r safon roi dewis i denantiaid gadw carped / llawr blaenorol.

- Fel man cychwyn - dylai cartrefi i'r rhai sydd â'r angen mwyaf / bregus - er enghraifft o dan gynlluniau Tai yn Gyntaf, gynnwys carpedi a / neu loriau priodol.
- Darparwyr tai cymdeithasol i ystyried sut y gellid ailadrodd arfer gorau wrth ddarparu lloriau ym mhob gosodiad newydd ledled Cymru.
- Dylai darparwyr tai cymdeithasol ystyried sut y gallant symud tuag at ddarparu carpedi / lloriau priodol ym mhob gosodiad newydd wrth symud ymlaen, gan ddilyn esiampl rhai cymdeithasau tai yng Nghymru.
- Dylai darparwyr tai weithio'n agos gyda TPAS Cymru, Tai Pawb, Llywodraeth Cymru, tenantiaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

Tai Cymdeithasol a thlodi yn y DU

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai tenantiaid cymdeithasol, o bob deiliadaeth, yw'r lleiaf tebygol o allu fforddio carpedi neu loriau. Mewn tai cymdeithasol fodd bynnag, am lawer o resymau, mae'n arfer cyffredin i gartrefi sydd newydd eu gosod beidio â chael carpedi na lloriau priodol.

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree yn 2016 yn nodi bod 43% o denantiaid tai cymdeithasol ledled y DU mewn tlodi, o'i gymharu â 36% o rentwyr preifat ac 11% o berchen-feddiannwyr. Nifer y teuluoedd di-waith mewn tlodi sy'n byw mewn tai cymdeithasol oedd 2.4 miliwn yn 2014/15. Roedd Cymru yn un o'r lleoliadau daearyddol gyda'r cyfraddau tlodi uchaf yn y DU ac roedd ganddi un o'r cyfrannau uchaf o aelwydydd rhent sy'n hawlio budd-dal tai ar 56%.

Roedd Blaenau Gwent yn un o ddwy ardal yn y DU gyda 7% o bobl 22 i 59 oed yn derbyn budd-daliadau allan o waith am fwy na thair blynedd ac roedd chwech o'r ardaloedd â chyfraddau uwch na 5% yn Ne Cymru. Mae gan hyn oblygiadau clir i dlodi plant gyda 1.5 miliwn o blant ledled y DU yn byw mewn cartrefi rhent cymdeithasol yn 2014/15. Mae plant mewn teuluoedd rhieni sengl mewn perygl penodol o fyw mewn tlodi oherwydd y mwyaf o oedolion sy'n gweithio yn y teulu, yr isaf yw'r tebygolrwydd o fod mewn tlodi mewn gwaith. Mae tenantiaid tai cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd cynhesu eu cartrefi, gyda chost yn cael ei nodi fel y prif rwystr.¹

Mae'r diffyg cyllid ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yn arwain at galedi ariannol, yn enwedig wrth symud cartref. Dyma ddyfyniad o dudalen we Sefydliad Joseph Rowntree yn disgrifio profiad Melanie (rhiant sengl, sector rhentu cymdeithasol, Llundain) a aeth i ddyled ar ôl symud i mewn i eiddo rhent cymdeithasol mwy gyda'i mab:


"I had to use the credit card, I had to buy my boy a bed, bedding, carpet, blinds I had to buy, curtains, it's things that we had to have... I had to buy flooring, and then you have to pay someone to come in and do the flooring. So, then I had to take out loans. It just never seemed that we were clear or anything... I'm in debt about £2,500, which is quite a lot. I've never been in that much debt. But what was I supposed to do? I can't tell my boy he can't have carpet down on his floor, and you can't have a bed to sleep in yet because you've got to wait. You know?"

Er bod hyn yn disgrifio profiad tenant tai cymdeithasol sy'n rhiant sengl yn Llundain, mae ymgysylltiad TPAS Cymru â thenantiaid a'r arolwg a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos bod tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn wynebu problemau tebyg wrth symud i dai cymdeithasol.

¹ <https://www.jrf.org.uk/report/monitoring-poverty-and-social-exclusion-2016>

Tai Cymdeithasol a Thlodi yng Nghymru

Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth gyfoes ar gyfer Cymru a'r brif ffynhonnell ddata sy'n cynnwys cyfeirio at ddeiliadaeth yw cyfrifiad 2011. Mae hyn yn darparu tystiolaeth bod oedolion 16-65 mlwydd oed yng Nghymru, sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol nad ydynt yn fyfyrwyr llawn amser, yn llai tebygol o fod yn weithgar yn economaidd (mewn cyflogaeth) nag oedolion o'r un oed sy'n byw mewn mathau eraill o dai megis llety preifat ar rent, dan berchnogaeth neu yn rhannol dan berchnogaeth neu oedolion sy'n byw yn ddi-rent (Ffigur 1).




Ffigur 1: Gweithgarwch / anweithgarwch economaidd yng Nghymru (pobl 16-65 mlwydd oed ac eithrio myfyrwyr llawn amser)²

Oherwydd y ffordd y mae data cyfrifiad yn cael ei gyflwyno ar NOMIS, nid yw'n bosibl eithrio data ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed ac eithrio'r rhai sydd wedi'u categorio fel mewn addysg llawn amser.

Mae data a gasglwyd yng nghyfrifiad 2011 hefyd yn dangos bod pobl 16-65 mlwydd oed sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn weithwyr rhan-amser (Ffigur 2). Roedd llai nag 20% o bobl 16-65 oed yng Nghymru mewn cyflogaeth llawn amser, o gymharu â dros 40% o bobl nad oeddent yn byw mewn tai cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol hanner mor debygol o fod mewn cyflogaeth llawn amser gyda chanlyniadau i'w hincwm.

² Ffigur 1 a 2 lluniwyd o NOMIS DC4601EW - *Tenure by economic activity by age - Household Reference Persons*, <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/dc4601ew>



Ffigwr 2: Cymhariaeth o statws cyflogaeth, pobl 16-65 mlwydd oed mewn tai cymdeithasol a mathau eraill o ddeiliadaeth

Mae data yng nghyfrifiad 2011 hefyd yn dangos bod pobl 16-65 mlwydd oed sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn llawer mwy tebygol o weithio ym maes dosbarthu, gwestai a bwtai (diwydiannau ar gyflog is³) neu ddiwydiannau eraill⁴. Mae cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod pobl 16-65 mlwydd oed yng Nghymru, sy'n byw mewn tai cymdeithasol, yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau fel gofal, hamdden a galwedigaethau gwasanaeth eraill, gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid, proses, gweithwyr offer a gweithredwyr peiriannau neu alwedigaethau elfennol. Maent hefyd yn llai tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau rheoli, proffesiynol, gweinyddol neu fedrus, sy'n fwy tebygol o gael eu talu'n dda.

Mae ffigwr 3 yn darparu gwybodaeth am gyfraddau cyflog fesul awr ar gyfartaledd yn ôl diwydiant. Daw hwn o adroddiad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Gorffennaf 2019 ⁵). Dywed yr adroddiad mai diwydiannau gweithgaredd ariannol ac yswiriant sydd â'r costau llafur uchaf (£45 yr awr) o gymharu â'r diwydiant llety a gwasanaethau bwyd (£10.70 yr awr).


³ <http://www.poverty.org.uk/low-pay-by-industry/>

⁴ Data wedi ei gasglu o *DC4602EW* - *Tenure by industry by age - Household Reference Persons (regional)*, <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/dc4602ewr>

⁵ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/indexoflabourcostsperhourilch/julytoseptember2019experimentalstatistics>

Figure 4: wage costs and non-wage costs per hour vary by industry

Labour costs per hour (£) by industry, seasonally adjusted, UK, Quarter 3 (July to Sept) 2019



Source: Office for National Statistics – Monthly Wages and Salaries Survey (MWSS), Labour Force Survey (LFS)

Ffigwr 3: Cyfradd tâl fesul awr yn ôl diwydiant (Ffigwr 4 yn adroddiad SYG Gorfennaf 2019)

Mae data o gyfrifiad 2011 yn dangos bod pobl 16-65 mlwydd oed sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar rent yn fwy tebygol o weithio mewn galwedigaethau lled-arferol neu arferol, erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith yn y tymor hir ac ychydig yn llai tebygol o fod yn fyfyrwyr llawn amser nag unigolion sy'n byw mewn mathau eraill o ddeiliadaeth ⁶.

Mae cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod pobl sengl (pob oed) yng Nghymru yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol, fel y mae rhieni sengl â phlant dibynnol, o'i

⁶ Data wedi ei gasglu o [DC4605EW - Tenure by NS-SeC by age - Household Reference Persons](https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/dc4605ew), <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/dc4605ew>

gymharu â mathau o aelwydydd sy'n byw mewn mathau eraill o ddeiliadaeth⁷. Yn ogystal, mae cartrefi sy'n cynnwys pobl 17 mlwydd oed a hŷn sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol yn sylweddol yn llai tebygol o fod â char neu fan, o gymharu â mathau eraill o aelwydydd⁸. Gallai hyn gyfyngu ar eu mynediad i brynu a chludo lloriau addas.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau ar dlodi ac yn darparu mesurau o'r risg i oedolion, pensïynwyr neu blant fod mewn tlodi incwm cymharol (hynny yw lle mae'r incwm cartref o dan 60% o incwm aelwyd canolrif y DU ar ôl i gostau tai gael eu talu). Mae ystadegau cyhoeddiedig ar gyfer 2015-16 i 2017-18 yn nodi bod pobl, oedolion a phlant mewn tai cymdeithasol mewn risg uwch o fod mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â'r rheini mewn mathau eraill o ddeiliadaeth (Tabl 1).

Tabl 1: Risg gymharol o fod mewn tlodi incwm cymharol (Cymru)

Daliadaeth	% Pobl - risg o dlodi incwm cymharol ⁹	% oedolion oed gweithio - risg o dlodi incwm cymharol	% Plant - risg o dlodi incwm cymharol ¹⁰
Rhentu cymdeithasol	51	51	56
Rhentu preifat	43	44	47
Perchen-feddiannwyr	13	11	12

Darperir y wybodaeth ddiweddaraf yn adroddiad Arolwg Cenedlaethol Cymru ar dlodi ac amddifadedd¹¹. Mae hyn yn nodi bod 46% o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn ddifreintiedig yn sylweddol, o'i gymharu â 31% mewn llety rhent preifat a 7% mewn tai perchen-feddiannwyr. Mae dros hanner y rhai sy'n profi amddifadedd deunydd cartref hefyd yn byw mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi fel y 40% mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar y mynegai cyffredinol a'r parthau tai, a diogelwch cymunedol a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn ôl yr adroddiad mae sawl ffactor arwyddocaol sy'n gysylltiedig â bod mewn amddifadedd materol:

- Bod yn fenyw
- Wedi eich gwahanu neu ysgaru
- Bod mewn iechedd cyffredinol gwael

⁷ Dadansoddiad o DC4101EW - Tenure by household composition, <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/dc4101ew>

⁸ Dadansoddiad o DC4416EW1a - Tenure by car or van availability by number of usual residents aged 17 or over in household, <https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/dc4416ew1a>

⁹ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/peopleinrelativeincomepoverty-by-tenuretype>

¹⁰ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativepoverty-by-tenuretype>

¹¹ <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/national-survey-wales-2017-18-poverty-deprivation.pdf>

- Bod â chymwysterau lefel isel neu ddim cymwysterau
- Bod yn ddi-waith
- Neb o'r aelwyd yn gweithio
- Plant yn yr aelwyd
- Byw mewn tai cymdeithasol
- Dim defnydd o'r rhyngwrwd
- Dim car
- Bod yn ofalwr
- Teimlo'n unig
- Teimlo'n bryderus
- Bod â boddhad bywyd isel
- Bod yn anfodlon â llety
- Byw mewn ardaloedd gwledig
- Byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru
- Byw mewn awdurdod penodol

Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Roedd 155,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd yn ystod 2018 (12% o holl aelwydydd Cymru)¹². Yn ôl Llywodraeth Cymru, ystyrir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os na allant gadw eu cartref yn gynnes am gost resymol. Yng Nghymru, mesurir hyn fel unrhyw aelwyd a fyddai'n gorfod gwario mwy na 10% o'u hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol. Diffinnir unrhyw aelwyd sy'n gorfod gwario mwy nag 20% fel un sydd mewn tlodi tanwydd difrifol¹³.

Roedd pensïynwyr sengl heb blant ar y risg uchaf o brofi tlodi tanwydd ac roedd 9% o aelwydydd sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn profi tlodi tanwydd. Mae statws cyflogaeth yn risg allweddol ar gyfer tlodi tanwydd gyda 28% o ymatebwyr sy'n ddi-waith a 18% o bobl sy'n anweithgar yn economaidd mewn tlodi tanwydd.

Mae incwm isel yn ffactor arall sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd, gyda 59% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2018 yn disgyn i'r deigradd incwm isaf a 69% o'r holl aelwydydd yn y deigradd incwm isaf yn dlawd o ran tanwydd. Ffactor arall sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd yw derbyn budd-daliadau â phrawf modd, gan gynnwys budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai gyda 14% o aelwydydd ar fudd-daliadau o'r fath mewn tlodi tanwydd. Mae oedran yr eiddo yn ffactor arall gyda'r gyfradd isaf o dlodi tanwydd wedi'i nodi gan y rhai sy'n byw mewn anheddau a adeiladwyd ar ôl 1980. Mae effeithiau negyddol tlodi tanwydd yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol tlotach, cyrhaeddiad addysg a lles economaidd¹⁴. Mae'r holl ffactorau uchod yn golygu bod tenantiaid tai cymdeithasol mewn perygl penodol o dlodi tanwydd sy'n gysylltiedig â nifer o ddirywiad economaidd.

¹² Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer Arolwg Amodau Tai Cymru 2017-18, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 a data prisiau tanwydd.

¹³ <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/fuel-poverty-estimates-wales-2018.pdf>


¹⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai Cymunedol Cymru a Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Achos dros Fuddsoddi, 2019 troednodyn cyfeirnod 3, adroddiad SAC uchod

Darpariaeth Tai Cymdeithasol yng Nghymru

Yng Nghymru mae tri math o ddarparwr tai cymdeithasol:

Math o Ddarparwr Tai Cymdeithasol	Cyfanswm
Awdurdodau Lleol	11
Cymdeithasau Tai (Trosglwyddiadau Gwirfoddol ar Raddfa Fawr neu Drosglwyddiadau Gwirfoddol ar Raddfa Lai)	51
Cymdeithasau Tai: Elusendai	11

Yn ystod 2018-19 roedd y 231,413 o eiddo tai cymdeithasol ledled Cymru yn cyfrif am oddeutu 16% o gyfanswm amcangyfrifedig yr anheddau yng Nghymru. O'r rhain roedd 38% o dai cymdeithasol yn eiddo i awdurdodau lleol a 68% gan gymdeithasau tai ¹⁵.



Polisi tai cymdeithasol a safonau yng Nghymru

Safon Ansawdd Tai Cymru

Yng Nghymru, y Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw'r safon orfodol ar gyfer tai cymdeithasol presennol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru ¹⁶ cyflwynwyd SATC gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod yr holl anheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol. Gosododd Llywodraeth Cymru darged i bob

¹⁵Dadansoddiad o ddata Ystadegaeth Cymru <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Social-Housing-Stock-and-Rents/totalsocialhousingstock-by-area-providertype>; <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-localauthority-tenure>; <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-localauthority-tenure>

¹⁶<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/welsh-housing-quality-standard-31-march-2019-256.pdf>

landlord cymdeithasol wella eu stoc dai er mwyn cwrdd â'r SATC cyn gynted â phosibl, ond beth bynnag, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Mae'r SATC yn mesur 42 elfen unigol o fewn saith categori:

1. Mewn cyflwr da
2. Yn ddiogel
3. Wedi'u gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda
4. Yn cynnwys cegin ac ystafell ymolchi gyfoes
5. Wedi'u rheoli'n dda (ar gyfer tai rhent)
6. Wedi'u lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel
7. Yn bodloni gofynion penodol y bobl sy'n byw yno gymaint â phosibl, er enghraifft diwallu anghenion pobl ag anableddau penodol

Nid yw SATC yn nodi safon ar gyfer lloriau ac eithrio mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Yn Rhan 2 (f) o'r safon, dylai fod gan bob cegin ac ystafell ymolchi sy'n cydymffurfio â SATC loriau sy'n ddiogel ac yn addas i'w defnyddio yn yr ystafelloedd hyn.¹⁷

Gofynion Ansawdd Datblygu

Mae safon arall gan Lywodraeth Cymru, Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD)¹⁸, yn nodi'r safonau swyddogaethol gofynnol ar gyfer cartrefi anghenion cyffredinol newydd a'r rhai wedi'i adsefydlu a adeiladwyd gan ddarparwyr tai cymdeithasol gan ddefnyddio cymhorthdal Llywodraeth Cymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae'r safon fel y'i nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014, Rhan 4 yn amddiffyn buddsoddiad cyhoeddus mewn darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru ac yn diogelu buddiannau eu tenantiaid.

Ar yn o bryd, nid yw GAD yn enwi safon ar gyfer lloriau, heblaw am feintiau llawr ac, fel rhan o safon *Visibly Better* yr RNIB, lloriau gwrthlithro mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu safon GAD ddiwygiedig ar gyfer cymorthdaliadau grant a thai fforddiadwy adran 106 fel y'u gelwir. Hyd y gŵyr yr awduron, nid yw'r GAD 2020 arfaethedig (i'w lansio yng Ngwanwyn 2020) yn nodi safon ar gyfer lloriau (yng nghyd-destun yr adroddiad hwn).

System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS)

Mae HHSRS yn berthnasol i bob cartref ledled y DU, ac eithrio eiddo'r cyngor. Mae hyn oherwydd bod HHSRS yn cael ei orfodi gan Awdurdodau Lleol.

Offeryn gwerthuso ar sail risg yw'r system HHSRS i helpu awdurdodau lleol i nodi ac amddiffyn rhag risgiau a pheryglon posibl i iechyd a diogelwch o unrhyw ddiffygion a nodwyd mewn anheddau. Fe'i cyflwynwyd o dan Ddeddf Tai 2004 ac mae'n berthnasol i eiddo preswyl yng Nghymru a Lloegr.¹⁹

¹⁷ <https://gov.wales/welsh-housing-quality-standard-guidance>

¹⁸ <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/LDP/Examination-Documents-2015/Welsh-Government-DQR-Design-Standards-Guidance-July-2005.pdf>

¹⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/housing-health-and-safety-rating-system-guidance-for-landlords-and-property-related-professionals>

Nid yw'r HHSRS hwn yn nodi'r safonau gofynnol. Mae'n ymwneud ag osgoi neu, o leiaf, leihau peryglon posibl. Mae hyn yn golygu y dylai landlordiaid hefyd adolygu amodau yn rheolaidd i geisio gweld ble a sut y gellir gwella eu heiddo a'u gwneud yn fwy diogel.

Mae asesiad risg yn edrych ar y tebygolrwydd y bydd digwyddiad yn deillio o gyflwr yr eiddo a'r canlyniad niweidiol tebygol. Er enghraifft, pa mor debygol y bydd tân? Beth fydd yn digwydd os fydd un? Bydd yr asesiad yn dangos presenoldeb unrhyw beryglon difrifol (categori 1) a pheryglon eraill llai difrifol (categori 2). I wneud asesiad, bydd arolygwyr awdurdodau lleol yn cyfeirio at "Ganllawiau Gweithredu" HHSRS²⁰

Mae canllawiau ar HHSRS yn darparu proffiliau ar gyfer pob perygl iechyd a diogelwch posibl yn y tŷ. Mae Rhan D - Amddiffyn rhag Damweiniau - Cwmpiaadau, Adran 20 - Syrthio ar Arwynebau Lefel, yn darllen fel a ganlyn:

20 FALLING ON LEVEL SURFACES ETC

Includes falls on any level surface such as floors/yards/paths. Also, trip steps/thresholds/ramps where the change in level is less than 300mm. Health effects Physical injury such as bruising/fractures/head/brain/spinal injuries. Extent of the injury depends on distance of the fall/kind of surface fallen on (e.g. stone/concrete/ceramic tiled floors/carpets etc.). Following a fall, the health of an elderly person may deteriorate generally and death after an initial fall injury can be cardio-respiratory.

Byddai'r arolygwyr (yn yr achos hwn) yn pennu'r risg o gwmpo. Mae Canllawiau Gweithredol yn darparu gwybodaeth ymhellach am achosion posibl cwmpiaadau ar arwynebau gwastad, gan gynnwys:

The likelihood of a slip or trip occurring is affected by how level is the floor, path or yard, its evenness and the state of maintenance. Surface variations of 5mm to floors and of 20mm to paths increase the likelihood of a trip, an even surface will help prevent falls.

The nature of the surface will influence the outcome. Hard surfaces such as uncovered stone, concrete, or ceramic tiled floors being more unforgiving than carpeted floors.

Mae'r canllaw yn archwilio materion perthnasol ymhellach sy'n effeithio ar ganlyniad tebygolrwydd a niwed. Mewn perthynas â lloriau (heblaw ceginau ac ystafelloedd ymolchi), mae'n nodi:

20.19 Matters relevant to the likelihood of an occurrence include: a) Lack of floor surface – no properly constructed floor, path, or yard where needed. e) Disrepair – to the structure and surface of the floor, path or yard.

Gellid dadlau y gallai peth o'r dystiolaeth ansoddol a ddarperir gan denantiaid tai cymdeithasol at ddibenion yr adroddiad hwn, fod yn berthnasol at ddibenion HHSRS a chyflwyno perygl baglu. Byddai carpedi neu loriau laminedig / finyl priodol yn fwyaf tebygol o helpu i atal cwmpiaadau.

20

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/15810/142631.pdf

Addas ar gyfer Preswyliaid Dynol

Ar ôl ei gweithredu'n llawn, bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yn ei gwneud yn symlach ac yn haws rhentu cartref yng Nghymru, gan ddisodli darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth bresennol gydag un fframwaith cyfreithiol clir. Mae'r 'contractau meddiannaeth' newydd yn disodli'r tenantiaethau cyfredol a bydd yn gwneud hawliau a rhwymedigaethau landlord a deiliad contract yn llawer cliriach. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd y landlord, a nodir yn adran 91 o Ddeddf 2016, i sicrhau bod eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo (FFHH). Pan fydd landlord yn rhentu annedd sy'n anaddas, bydd deiliad contract yn gallu ceisio gorchymyn gan y llys yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddatrys y broblem. Mae adran 94 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â phenderfynu os yw'r eiddo yn FFHH.

Bydd hyn yn gosod: 1. Rhagnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw eiddo yn FFHH; 2. Gofynion penodol y landlord i sicrhau nad yw'r materion a'r amgylchiadau hyn yn codi.

Rhai o'r gwahaniaethau rhwng HHSRS a FFHH yw:

- Mae'r penderfyniad a yw perygl yn bodoli o dan HHSRS yn seiliedig ar ei effaith ar y person mwyaf bregus sy'n agored i'r perygl penodol hwnnw, yn hytrach na'r unigolyn sy'n byw yn yr annedd mewn gwirionedd.
- Hefyd, mae'r gofyniad i'r archwiliad gael ei gynnal gan asesydd awdurdod lleol yn gwneud ei gymhwyso'n ymarferol mewn perthynas â phob contract galwedigaeth bron yn amhosibl. Ni fydd rhwymedigaeth FFHH o dan Rhentu Cartrefi yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad manwl. Yn hytrach, y llysoedd fydd yn penderfynu yn y pen draw a yw eiddo yn FFHH, os na cheir cytundeb rhwng y landlord a deiliad y contract. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, disgwylir na fydd angen eu cyfeirio at y llys oherwydd dylai fod yn amlwg i'r landlord a deiliad y contract os yw'r eiddo o gyflwr rhesymol i'w feddiannu.

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoliadau FFHH yn nodi:

"(...) o ganlyniad i ofynion Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'n llai tebygol y bydd annedd landlord cymunedol yn annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi gan mai nod y Safon, yn debyg i Reoliadau Ffit i Fyw, yw gwella amodau tai. Er enghraifft, mae'r Safon eisoes yn gwneud gosod larymau mwg yn ofynnol."

Nid yw FFHH yn rhagnodi safonau ffitrwydd i'r un lefel o fanylion â safonau HHSRS ac mae'n defnyddio gwahanol feini prawf - h.y. ffitrwydd yn erbyn perygl. Ar ben hynny, gall elfennau y gall awdurdod lleol eu hystyried yn beryglus o dan HHSRS fod yn dderbyniol o dan FFHH. Er enghraifft, mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir, er y gellir ystyried amrywiad bach yn lefel perygl y lloriau o dan HHSRS ac os, er enghraifft, bod person hŷn yn byw yn yr annedd, gall yr awdurdod lleol gymryd camau gorfodi yn erbyn y landlord. Fodd bynnag, byddai amrywiad bach yn arwyneb lloriau yn annhebygol o dorri safon FFHH. Felly, nid yw bodolaeth peryglon a ddiffinnir o dan Atodlen 1 i'r HHSRS, yn golygu'n awtomatig bod yr annedd yn anaddas i bobl fyw ynddo, gan fod trothwyon gwahanol ar gyfer penderfynu ar hyn.

Mae canllawiau safonol perthnasol FFHH yn darllen fel a ganlyn:

20 FALLING ON LEVEL SURFACES ETC

Includes falls on any level surface such as floors, yards and paths. Also trip steps / thresholds / ramps where the change in level is less than 300mm. Potential Landlord actions Landlords should conduct visual inspections to ensure the risk of trip hazards are minimised, e.g. ripped/torn carpets, loose floorboards and broken paving etc. Adequate lighting will help enable users to identify any obstructions and any trip steps or projecting thresholds.

Er gwaethaf y trothwy canfyddedig ar gyfer pennu perygl, mae FFHH yn uwch nag ar gyfer HHSRS. Gellid dadlau y gallai rhai o'r enghreifftiau a ddisgrifiwyd gan denantiaid a ymatebodd i'n harolwg wneud cartref yn anaddas i bobl fyw ynddo.

Pam mae diffyg lloriau neu garpedi addas yn broblem i rentwyr cymdeithasol

Nododd ymgynghoriad cychwynnol TPAS Cymru â landlordiaid cymdeithasol y gellid gwneud llawer mwy yn y maes hwn. Gydag ychydig o gymdeithasau tai yn gweithio gyda *Greenstream Flooring* neu sefydliadau eraill i gefnogi tenantiaid trwy gronfeydd caledi neu debyg i gael teils carped ail oes sylfaenol yn eu cartrefi.

Mae *Greenstream Flooring* yn Gwmni Buddiant Cymunedol wedi'i leoli ym Mhorth sy'n arbenigo mewn darparu lloriau cost isel gydag arbenigedd mewn teils carped wedi'u hailgylchu neu eu hailddefnyddio am brisiau gostyngedig. Yn ogystal, mae *Greenstream Flooring* yn cynnal 'Diwrnodau Rhoddion Cymunedol' misol gan roi miloedd o fetrau o deils carped trwm a fyddai fel arall wedi cael eu claddu neu losgi i drigolion lleol, grwpiau cymunedol a busnesau bach.

Gwirfoddolodd Elizabeth Taylor (TPAS Cymru) mewn Diwrnod Rhoddion Cymunedol a gweld yn uniongyrchol y materion sy'n wynebu tenantiaid sydd ddim yn gallu fforddio lloriau na charpedi i'w cartrefi. Disgrifiodd Elizabeth ei phrofiad mewn blog ²¹:

Ar ôl cyrraedd y warws yn gynnar, roedd 30+ o ferched, plant a phensiynwyr, yn ciwio i gael gafael ar y teils carped rhad ac am ddim hyn. Felly, dechreuais siarad â nhw am eu profiadau. Dywedodd un fenyw ifanc fod "...y gwasanaethau cymdeithasol wedi dweud wrtha i am ddod yma i nôl carped am ddim oherwydd, 'dyma'r peth olaf sydd ei angen arnaf i allu cael fy mhientyn yn ôl' ” Nododd menyw arall sydd wedi bod yn byw gyda'i rhieni ers blwyddyn wrth aros am dŷ, "mae mor anodd symud i mewn i dŷ heb loriau gan nad oes gen i ddim byd ar wahân i ddodrefn fy mhlant ar ôl gadael perthynas ... mae lloriau mor ddrud, ni allaf ei fforddio. Mae'n mynd i gymryd amser i gael lloriau i mewn ac mae'n gas gen i feddwl bod fy mhlant ar loriau noeth yn cael splinters". Dywedodd dyn hŷn fod ganddo ef a'i wraig broblemau anadlu a'u bod yn anabl a bod y llwch o'r llawr wedi arwain at ddirywiad yn eu hiechyd. Dywedodd mam bachgen 3 oed ei fod "hyd yma wedi rhedeg ar draws y cyntedd dair gwaith ac ar bob un o'r tri achlysur, rydw i wedi gorfod tynnu talpiau o splinters allan o'i droed tra ei fod yn crio, mae'n erchyll".

²¹ <http://www.tpas.cymru/blog/living-with-dignity-lets-offer-homes-not-houses>

Y gwir yw, ni allwn gredu'r hyn yr oeddwn yn ei glywed mewn gwirionedd; Rwy'n gweld ac yn clywed am y gwaith anhygoel sy'n digwydd gyda thenantiaid mewn cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol; Rwy'n gweld faint o waith maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod tenantiaid wrth wraidd eu sefydliadau mewn gwirionedd. Ac eto, mae rhywbeth sydd mor hanfodol, rhywbeth sy'n sicrhau y gall tenantiaid deimlo bod eu plant yn ddiogel, na fydd eu hiechyd yn dirywio ac y gallant fod ag urddas a pharch yn eu cartref, yn cael ei gollu'n llwyr. Soniodd un tenant ei bod wedi bod i weld y tŷ roedd hi'n ei gael a'i fod wedi'i garpedu ond pan ddaeth i symud i mewn, nid oedd carped a dywedwyd wrthi y byddai angen iddi gael ei charped ei hun.

Fe wnaeth profiad Elizabeth ei hysgogi i wneud ymchwil bellach i'r mater hwn. Gwelodd, ar gyfartaledd, bod carped safonol wedi'i osod mewn ystafell pedwar wrth bedwar metr ar gyfartaledd (16m²) yn costio oddeutu £14 i £16 fesul m² wedi ei osod sydd yn costio oddeutu £250 fesul ystafell. Yn syml, mae hyn yn swm anfforddiadwy o arian i denantiaid tai cymdeithasol. O ran yr effaith amgylcheddol, mae carped yn helpu i arbed ynni gan ei fod yn cyfrannu tuag inswleiddio'r amgylchedd tu mewn. Mae carped yn ynysu lloriau ac yn darparu teimlad seicolegol a chorfforol o gynhesrwydd a chysur mewn cartref. Mae hefyd yn darparu rhwystr inswleiddio sain hanfodol sy'n arbennig o berthnasol mewn tŷ amlbreswyliaeth.

Gweithiodd TPAS Cymru gyda Tai Pawb, STS, TCC, *Greenstream Flooring*, y sector ehangach a thenantiaid i archwilio'r broblem hon ymhellach a chyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn.

Dulliau'r Ymchwil

Cynhaliwyd dau arolwg ar-lein yn ystod 2019:

Gofynnwyd i Gymdeithasau Tai ac awdurdodau lleol am eu polisiâu a'u harferion o ran lloriau neu garpedi pan fydd eiddo'n cael ei ail-osod. Cafwyd 41 o ymatebion gan 3 awdurdod lleol a 38 cymdeithas dai. Nid yw hyn yn gynrychioliadol o ganran yr eiddo a reolir gan awdurdodau lleol.

Gofynnwyd i denantiaid am eu profiadau mewn arolwg byr ar-lein, a derbyniwyd 57 o ymatebion, er na atebodd rhai ymatebwyr yr holl gwestiynau.

Crynodeb o'r Canfyddiadau


Arolwg o Ddarparwyr Tai

Gosod lloriau neu garpedu ar osodiadau newydd

Dywedodd 80% o'r ymatebwyr nad ydyn nhw'n ffitio lloriau na charpedau i osodiadau newydd fel arfer safonol.

Q1 Do you fit flooring/carpet into your new lets as standard practice?

Answered: 41 Skipped: 0




Dyweddod llai na 10% (4 ymatebydd cymdeithas dai) eu bod yn cynnig lloriau i denantiaid os na allant ei fforddio neu os yw'r angen yn cael ei nodi gan asesiad therapi galwedigaethol. Dywedodd un darparwr tai ei fod yn darparu lloriau yn y gegin a'r ystafell ymolchi ac y byddent yn rhoi teils carped ar gyfer un ystafell yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dywedodd darparwr tai arall nad ydyn nhw'n tynnu'r lloriau presennol oni ofynnir iddynt wneud hyn neu ei fod yn hollol angenrheidiol, ac os nad oes carped mewn lleoedd byw, byddent yn trafod gyda thenantiaid sy'n symud i mewn ac yn darparu carped pe bai angen.

Tynnu lloriau neu garpedi o eiddo gwag

Dyweddod 29% o'r ymatebwyr eu bod yn tynnu lloriau neu garpedi o eiddo gwag fel mater o drefn.

Q2 Do you remove flooring/carpet from all your voids as a matter of course?

Answered: 41 Skipped: 0



Cafwyd ymateb manylach gan 41% o'r ymatebwyr (17 darparwr tai).

Dywedodd mwyafrif yr 17 hynny (12 darparwr tai) eu bod weithiau'n gadael lloriau neu garped os oedd mewn cyflwr da ac os gofynnodd y tenant newydd amdano. Mewn rhai achosion, trefnodd y darparwr tai hefyd i lanhau carpedi. Y prif resymau dros gael gwared â charpedi neu loriau yn yr achosion hyn oedd:

- Lloriau anniogel neu beryglon baglu
- Roedd gan y preswlydd blaenorol anifeiliaid anwes

Darparodd mwyafrif yr ymatebwyr (25) wybodaeth bellach am y prif resymau dros dynnu'r holl loriau neu garpedi o eiddo gwag. Roedd y rhain yn disgyn i bum prif gategori:

- Iechyd a diogelwch, er enghraifft risg y bydd nodwyddau yn y carped
- Gofyniad i archwilio'r hyn sydd o dan y lloriau neu'r carped
- Y risg y bydd anifeiliaid anwes blaenorol yn gadael chwain neu wyau
- Cyflwr gwael neu loriau / carped budr
- Cysondeb safonau gwagleoedd

“Iechyd a Diogelwch - rydym wedi cael profiad o adael carpedi ac wedi hynny yn gorfod ail-gartrefu tenantiaid a mygdarthu'r eiddo pan ddarganfuwyd chwain. Rydym wedi ymchwilio i roi'r carpedi, ond mae cyngor cyfreithiol yn awgrymu nad yw hyn yn dileu'r gofyniad i atgyweirio a chynnal (ac o bosibl amnewid) y carpedi”

“ddim eisiau'r ddadl o egluro i'r tenant na fyddwn yn ei amnewid pan fyddant yn dweud ei fod wedi treulio.”

“Heb gael gwared arno ni allwn weld cyflwr y lloriau oddi tano. Fe'n cynghorwyd i gael gwared am resymau iechyd a diogelwch.”

“[Rydym] wedi buddsoddi'n sylweddol i wella ein safon gwagleoedd dros y 18 mis diwethaf. Ar hyn o bryd mae ein gwariant cyfartalog ar eiddo gwag oddeutu £8k gan ein bod eisiau creu tenantiaethau cynaliadwy. Oherwydd buddsoddiad ychwanegol sylweddol, ni allem fforddio £1.5- £2k yr eiddo i osod lloriau / carpedi drwyddi draw.”

“Byddem yn croesawu datrysiadau da fel hyn:

<https://www.insidehousing.co.uk/insight/insight/furnishing-the-future-51579>”

Yn yr erthygl y cyfeirir ati yma, adroddodd Kate Youde o *Inside Housing* ar gynllun peilot a gynhaliwyd gan *Orbit* yn ystod 2017. Pe bai'r tenant yn gofyn, byddai *Orbit* yn gadael carpedi a llenni mewn cartrefi wrth eu hail-osod a'u rhoi i'r tenant sy'n symud i mewn. Yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun, cyfrifodd *Orbit* fod y mesur hwn wedi arbed tua £10,000 i 22 o denantiaid.

Camau a gymerir i ddelio ag ystyriaethau iechyd a diogelwch os gadewir lloriau neu garpedi yn yr eiddo

Ymatebodd 29 o ddarparwyr tai i'r cwestiwn hwn. Ailadroddodd rhai eu rhesymau dros eu tynnu.

Canolbwyntiodd y prif ymatebion ar:

- Aseidiadau/archwiliadau risg gyda phenderfyniadau'n cael eu gadael i syrfewyr, swyddogion cynnal a chadw neu dai
- Lloriau mewn ceginau neu ystafelloedd ymolchi dim ond yn cael eu gadael os oedd ganddynt arwynebedd gwrthlithro
- Trefnu i lanhau carpedi
- Y gofyniad i dynnu lloriau os oedd gan y tenant blaenorol anifeiliaid anwes

“Dewis y tenant os ydynt eisiau cadw llawr pren tolciog heb ddim perygl o faglu neu garpedi wedi maeddu - rydym yn cynnig i’w glanhau. Mae’r holl loriau’n cael eu rhoi i’r tenant, mae hyn yn cael ei wneud yn glir yn ystod y ddau ymweliad a llofnodir datganiad terfynol fel rhan o’r denantiaeth i sicrhau bod y tenant yn deall.”

“Ni fyddwn yn rhoi lloriau sydd ddim yn wrth-lithr, byddwn yn ei dynnu ac yn rhoi llawr gwrth-lithr yno cyn i’r tenant newydd symud i mewn.”

“Asesu statws cyfredol - darpariaeth yw sicrhau diogelwch llawn - gall hyn olygu atgyweirio neu amnewid.”

“Gyda gyfnewid ar y cyd rydym yn caniatáu i denantiaid adael carpedi / lloriau trwy gytundeb ar y cyd.”

Atebodd 40 o ymatebwyr gwestiwn pellach ynghylch rhoddion neu ymgymeriadau tebyg. Roedd 62% angen trefniant o’r fath os oedd carpedi neu loriau’n cael eu darparu neu eu gadael yn yr eiddo.

Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch statws cyfreithiol y rhodd:

“rydym wedi cael cyngor cyfreithiol nad yw rhoddion yn werth y papur y mae wedi’i ysgrifennu arno ac felly byddai’n rhaid i ni gynnal a chadw’r carped.”

Gall hwn fod yn faes lle mae angen eglurhad cyfreithiol pellach.

Dywedodd un gymdeithas dai eu bod yn edrych ar wahanol gynlluniau lle gall preswylwyr gael mynediad at loriau cost llai / rhad ac am ddim e.e. teils carped wedi’u hailgylchu.


Arolwg Tenantiaid

Roedd 64% o’r ymatebwyr yn byw mewn cartrefi a ddarperir gan gymdeithasau tai gyda’r 36% arall yn cael eu cartrefu gan awdurdodau lleol. Roedd 63% o’r ymatebwyr wedi byw yn eu cartref presennol ers dros 2 flynedd.

Carpedi neu loriau mewn tai


Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr (48%) nad oedd ganddyn nhw loriau fel carped na laminad drwy eu tŷ.

Do you have flooring such as carpet or laminate throughout your house? If not, please tell us why on the next page.



Dyweddodd mwyafrif yr ymatebwyr fod hyn oherwydd cost, incwm isel neu ddiffyg arian ar gael. Dywedodd 85% o'r ymatebwyr nad oedd lloriau na charpedau'n fforddiadwy.

Is carpet affordable for you?



“Bûm yn byw yn fy eiddo am dros flwyddyn heb unrhyw loriau gan nad oeddwn yn gallu fforddio, pan welais fod carpedi ledled yr eiddo, gofynnais a allent eu gadael i lawr a byddwn yn eu hamnewid ac yn eu gwaredu pan allwn / oedd angen. Erbyn i mi gael yr allwedd roedd y carpedi wedi cael eu tynnu a'u taflu ... trueni mawr gan fod y carpedi mewn cyflwr da, felly roedd yn rhaid i mi fyw heb am dros flwyddyn nes i mi allu fforddio carped.”


“Wedi'i adael yn foel ac mewn cyflwr erchyll wrth symud i mewn. Dal i'w fel hyn nawr. Methu fforddio carpedu'r tŷ cyfan. O dyllau enfawr, i hoelion, bylchau i chwilod fynd i mewn, llifogydd a byrddau llawr rhydd a manau peryglus lle mae'r plant yn brifo'u hunain. Rydw i wedi bod yn trwsio ers dwy flynedd fy hun.”

“Rwyf wedi llwyddo i roi laminad lawr yn yr ystafell fyw ac wedi gorfod cymryd benthyciad i wneud hynny. Mae fyny'r grisiau i gyd yn fyrddau llawr. Cefais garped ail-law gan ffrind ar gyfer ystafell wely fy mab ond does gen i ddim isgarped felly dal ddim yn ddiogel iawn i'm mab 3 oed. Mae fy ngrisiau yn foel ac mae ganddyn nhw hoelion perygl dal yn y golwg”

“Yn hytrach na thynnu carpedi, gofynnwch i denantiaid newydd os ydyn nhw'n dymuno eu cadw, os ddim, yna eu tynnu, ni all pawb fforddio rhai newydd”


O'r ymatebwyr a oedd â lloriau neu laminad ledled eu cartref, roedd gan 4 ohonynt garpedi a adawyd gan denant blaenorol, er bod 1 wedi gorfod eu hamnewid gan eu bod yn “wedi'i gwisgo at yr edau”.

Y math mwyaf cyffredin o loriau oedd carped ond dywedodd 21% nad oedd ganddyn nhw loriau mewn rhan o'u cartref.



Dywedodd 35% o'r ymatebwyr y bu lloriau yn yr eiddo wrth edrych ar eu darpar gartref, ond eu bod wedi eu tynnu cyn ei feddiannu.

Was there flooring in your property when you visited it which had then been removed when you moved in?



Mewn rhai achosion, roedd y tenant wedi gofyn am adael y lloriau neu'r carped yn yr eiddo, ond ni ddigwyddodd hyn.

“Fe wnaethant dynnu lloriau pren a dweud ei fod yn arfer safonol.”

“Gofynnais hefyd a ellid ei adael oherwydd nad oeddwn yn gallu fforddio carped bryd hynny, ond pan gefais yr eiddo roedd y carped wedi cael ei dynnu a'i daflu i ffwrdd!”

“Gofynnais i gadw'r lloriau laminedig nes fy mod yn gallu fforddio carped ond erbyn i mi symud i mewn roedd wedi cael ei dynnu.”


Er bod darparwyr tai wedi dweud eu bod yn tynnu carpedi neu loriau ar sail iechyd a diogelwch roedd yn ymddangos bod tenantiaid yn dod o hyd i loriau mewn cyflwr gwael neu beryglus hyd yn oed.:

“Mae byrddau llawr agored yn yr ystafell fyw ar ben bwlch 20 modfedd i danddaear (yn rhewi'n aml) sy'n gadael i chwilog a chnofilod ddod i mewn... dw i wedi bod yn brwydro yn erbyn hyn. Roedd byrddau sgertin yn rhy uchel a fentiau yn rhy isel. Yn achosi problemau gyda tamprwydd, lloriau yn pydru, ac oerfel. Dw i wedi llenwi a sandio a chael gwared ar yr hyn y gallai i wneud yn hylan, yn gynnes ac yn ddiogel. Dw i wedi tynnu pinnau tacio a lymphiau o blastr. Ni ellid gosod lloriau ar unrhyw un o'r ystafelloedd yn y cyflwr y maent yma. Pob un yn anwastad. Mae hyd yn oed y concrit yn dod i ffwrdd ar un ochr i'r prif ystafelloedd wrth ymyl y byrddau llawr.”


Effaith bod heb garped neu lawr addas

Arweiniodd diffyg lloriau neu garpedi addas at broblemau i denantiaid megis:

- Materion diogelwch (31%)
- Materion cynhesrwydd (28%)
- Materion sain (26%)
- Anawsterau anadlu (15%)



Dyweddodd 63% o'r ymatebwyr fod byw heb loriau yn effeithio ar eu lles.



Ymhlith y materion a grybwyllir mae:

- Splinters
- Colli gwres gan arwain at denantiaid yn oer neu mewn poen
- Perygl i blant gropian ar loriau concrit
- Iselder
- Dim yn gallu croesawu ymwelwyr
- Effeithiau andwyol ar gyflyrau iechyd presennol fel asthma

“mae fy merch yn dioddef o asthma ac mae lloriau concrit llychlyd yn gyson i lawr y grisiau ac i fyny'r grisiau mae hen fyrddau llawr rydyn ni wedi ceisio eu glanhau.”

“Mae pawb yma yn dioddef o asthma”

“Rydw i a'm plant yn dioddef o Raynauds, asthma ac ecsema. Mae'r lloriau oer, bachog ym mhob ystafell wedi gwneud i mi fynd i gymaint o ddyled wrth i mi dalu am wres yn rheolaidd.”


*“Mae'n effeithio ar fy iechyd meddwl gan ei fod yn gwneud i mi deimlo'n s***y nad oes gan fy mab loriau braf i gerdded arnyn nhw.”*

“Dwi'n teimlo dan bwysau na allaf wahodd teulu i aros oherwydd bod y tŷ'n edrych yn flêr heb loriau iawn.”

“Dechreuais / dwi yn dioddef o iselder. Rwy'n fam falch iawn o'm tŷ ac yn cael anhawster dychwelyd i fy ngyrfa oherwydd fy mod yn gofalu am ddau un ifanc llawn amser ers i'r teulu wahanu. Rwyf wedi trwsio pob ystafell gan gynnwys y grisiau. Rwyf wedi llenwi, sandio, cael gwared ar beryglon ac wedi crafu'r hyn y gallaf ac wedi ymdrin â'r hyn na allaf. Byddaf yn fythol ddiolchgar am ein cartref, ond cefais fy synnu gan y diffyg rheidrydd sylfaenol a diogelwch pan ddaeth i'r lloriau. Mae gen i ormod o gywilydd i adael i ymwelwyr ddod acw na gadael fy mhlant gael eu ffrindiau drosodd. Mae'r straen yn effeithio arnom i gyd. Yn enwedig pan fyddai'n gweld yn brifo eu hunain neu bod rhaid i mi ddweud wrthyn nhw beidio cerdded mewn mannau penodol ym mhob ystafell.”


“Mae wir yn effeithio ar fy lles i a lles fy mhentyn ifanc. I fyny'r grisiau mae'r holl fyrddau llawr gyda hoelion / splinters ym mhobman a hefyd gydag arogl cryf o wrin gan y tenant blaenorol ac ardal fawr o fyrddau llawr wedi'u llosgi mewn un ystafell wely hefyd ar ôl y tenant blaenorol. Mae gan fy mab broblemau ymddygiad ac mae'n torri'r lloriau yn aml, felly mae hyn hefyd wedi effeithio ar y ddau ohonom gydag ef yn brifo'i hun yn rheolaidd i fyny'r grisiau.”

Dywedodd 72% o'r ymatebwyr fod ganddyn nhw blant. O'r rhain, roedd gan 44% blant o dan 5 oed, a gellir dadlau eu bod yn y risg uchaf o faterion iechyd a diogelwch.



Dyweddod hanner yr ymatebwyr hyn fod peidio â chael lloriau wedi effeithio ar iechyd a lles eu plant.

4. 20/20/20



Arweiniodd peidio â chael lloriau addas at effeithiau corfforol, meddyliol neu seicolegol, methu â chwarae ar y llawr a phlant ddim yn teimlo eu bod yn gallu gwahodd ffrindiau draw.

“Methu cael ffrindiau draw ac ati”

“Ydi, mae’r ystafell yn oer a llychlyd ac maen nhw’n cwyno nad ydi’n gyfforddus ac efo cywilydd gofyn i’w ffrindiau ddod draw”

“Mae’r lloriau noeth yn y tŷ rwy’n byw ynddo yn chipboard. Yn staenio’n hawdd a ddim yn sychu’n ddigon cyflym. ”

“Mae’n oer ac nid yw’n braf eistedd llawr concrit.”

“Roedd yn rhaid i beidio chwarae gyda theganau ar y llawr – rhaid bod mewn cot teithio uchel”

“Methu chwarae a rhedeg o gwmpas yn rhydd”

“Edrych yn wael ac yn effeithio ar eu hyder”

“Yn bersonol, ydi oherwydd mae'n cael splinters hefyd gan mai dim ond llawr pren called sydd gennym.”

“Maen nhw dan straen wrth frifo eu hunain trwy'r amser. Maen nhw'n gofyn pam na allan nhw gael 'ffrindiau' rownd i chwarae. Maen nhw'n oer ac yn sâl iawn yn y misoedd oer oherwydd nad ydyn nhw'n gallu cynhesu, er i mi adael y gwres ymlaen (nid yw'r tŷ yn cynnwys / cynnal y gwres). Weithiau mae'n rhaid i ni gysgu gyda'n gilydd i gadw'n gynnes ar nosweithiau oer / gwyntog (sy'n lletchwith i'm bachgen 6 oed gan ei fod yn dioddef o SPD ac angen ei le a bod ar ei ben ei hun tra mae ei gorff / pen yn siglo). Mae fy merch yn mynd yn drist iawn ac yn crio yn rheolaidd yn ystod y misoedd oerach. Maen nhw'n casáu sefyll ar wllithod a malwod a phryfed cop a hyd yn oed llygod sy'n dod trwy'r bylchau mawr o'r tu allan / oddi tano.”

“Mae gan fy mab broblemau ymddygiad ac yn taro'i ben ar lawr o hyd ac mae ganddo hefyd olwg gwael ac mae'n ddibynnol ar ei sbectol ond mae'r lloriau llawn hoelion / splinters wedi achosi anaf iddo sawl gwaith ac mae'n anniogel iawn. Nid oes gorchudd ar fy ngrisiau o gwbl ac mae'r hoelion na dynnodd y cyngor allan pan symudodd y tenant blaenorol hefyd wedi achosi anaf i'm mab ar sawl achlysur.”

“Alergeddau difrifol sydd angen EpiPen, asthma, a pheryglus os ydynt yn cwmpo drosodd oherwydd llawr caled.”

Trafodaeth

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, mae tenantiaid tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn anweithredol yn economaidd, yn fwy tebygol o weithio mewn galwedigaethau neu ddiwydiannau â chyflog isel, yn fwy tebygol o fod yn rhieni sengl ac yn llai tebygol o fod â char neu fan. Yn ôl adroddiad Llywodraeth Cymru 'Arolwg Cenedlaethol Cymru' ar dlodi ac amddifadedd - mae'r rhain i gyd yn ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch o dlodi cymharol.

Dywedodd bron i draean yr ymatebwyr tai cymdeithasol eu bod yn tynnu lloriau neu garpedi o eiddo gwag fel mater o drefn a'r prif resymau oedd pryderon ynghylch iechyd a diogelwch. Dywedodd nifer o denantiaid eu bod wedi ymweld ag eiddo a oedd â charpedi neu loriau, ond cafodd y rhain eu tynnu, er gwaethaf, mewn rhai achosion, iddynt ofyn i'w cadw. Dywedodd llawer o ymatebwyr tai cymdeithasol eu bod weithiau'n gadael lloriau yn eu lle oni bai nad oedd hyn yn bosibl oherwydd pryderon iechyd a diogelwch. Fe wnaethant liniaru risgiau trwy gynnal archwiliadau, sicrhau bod lloriau mewn ystafelloedd ymolchi a cheginau yn rhai gwrth-lithr, trefnu glanhau carpedi os oedd angen ond gofyn am gael eu tynnu os oedd gan y tenant blaenorol anifeiliaid anwes. Fe wnaethant hefyd sicrhau bod rhoddion neu drefniadau tebyg yn cael eu gwneud i liniaru'r risg o gael eich dal yn gyfrifol am gynnal a chadw neu dynnu carpedi neu loriau yn y dyfodol, er i un ymatebydd godi pryderon ynghylch statws cyfreithiol rhoddion.

Effeithiau niweidiol peidio â chael lloriau na charpedi addas

Mae ymchwil wedi datgelu bod cael urddas a pharch yn eich cartref yn cynyddu lles, yn lleihau lefelau cortisol, yn lleihau trais ac yn lleihau afiechyd. Yn ogystal, gall darparu lloriau leihau unigrwydd ac arwahanrwydd gan y bydd tenantiaid yn teimlo'n falch o gael pobl i ymweld â'u cartref ²². Mae'n amlwg o'r ymchwil hon bod tenantiaid a'u teuluoedd yn profi caledi ariannol pan fyddant yn symud neu'n trosglwyddo i eiddo a ddarperir gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai. Mae hefyd yn amlwg o'r adroddiad hwn bod llawer o denantiaid tai cymdeithasol mewn tlodi cymharol, felly gellir dadlau yn llai tebygol o fod â'r modd i brynu carpedi neu loriau addas.

Mae tenantiaid hefyd yn dioddef effeithiau corfforol, meddyliol neu seicolegol ac arwahanrwydd cymdeithasol, er enghraifft o beidio â theimlo eu bod yn gallu gwahodd ffrindiau i ymweld. Dywedodd bron i draean y tenantiaid a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn profi problemau diogelwch er gwaethaf mwyafrif y darparwyr tai yn dweud mai rheswm allweddol dros gael gwared â charpedi neu loriau oedd lleihau'r risg o faterion iechyd a diogelwch. Roedd y materion yr oedd tenantiaid yn eu hwynebu yn cynnwys lloriau concrit caled a splinters mewn arwynebau pren, yn peri peryglon penodol i blant ifanc ac yn eu hatal rhag rhedeg o gwmpas neu chwarae ar y llawr. Cyfeiriodd sawl tenant at ddrafftiau y gellid eu lleihau trwy garpedu a'r effeithiau andwyol dilynol i'r rheini sydd â chyflyrau fel Raynauds, asthma ac ecsema. Mae hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar eu hôl troed carbon ynghyd â chynyddu'r risg o dlodi tanwydd. Yr aelwydydd sydd fwyaf mewn perygl o dlodi tanwydd yw'r rhai sy'n cartrefu pensiynwyr sengl heb blant, pobl ddi-waith neu bobl sy'n anweithgar yn economaidd, teuluoedd ar incwm isel, y rhai sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd, gan gynnwys budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai, a'r rhai sy'n byw mewn eiddo hŷn. Canfu Sefydliad Joseph Rowntree fod rhentwyr cymdeithasol yn ei chael yn anodd cynhesu eu cartrefi, gyda'r gost yn cael ei nodi fel y prif rwystr. Gall hyn gael ei waethygu gan ddiffyg lloriau addas a chynyddu unrhyw risgiau sy'n ymwneud ag iechyd, sy'n gysylltiedig â diffyg gwres neu dlodi tanwydd digonol.

Manteision darparu lloriau neu garpedi

Mae darparu lloriau yn sicrhau fforddiadwyedd i'r tenant gan nad ydyn nhw'n gwario arian ar garpedi ac yn llai tebygol o fynd i ddyled. Er y gall tenantiaid geisio cael blaenswm ar eu budd-daliadau neu fenthyciadau, mae dal angen talu'r rhain yn ôl. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai landlordiaid cymdeithasol ddarparu carpedi neu loriau newydd, ond gallent ystyried gadael lloriau mewn cyflwr da pe dymunir y tenant hyn. Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy yn enghraifft o landlord cymdeithasol sydd wedi diwygio eu safonau gwagleoedd yn ddiweddar fel bod bob eiddo gwag â charped, neu fod lloriau'n cael eu darparu (ymhlith pethau eraill). Yn ôl Tai Sir Fynwy dyma sydd orau i'r tenant a'r landlord. Mae sawl landlord cymdeithasol arall eisoes yn ceisio gadael carpedi neu loriau yn eu lle trwy gytundeb gyda'r tenant sy'n dod i mewn, yn amodol ar drefniant rhoddion. Mae eraill yn gweithio gyda sefydliadau fel *Greenstream Flooring* i helpu tenantiaid i sicrhau lloriau diogel fforddiadwy neu'n rhad ac am ddim.

²² SHELTER 2017. Effaith problemau tai ar iechyd meddwl. Llundain.

Astudiaeth Achos

Cyflwynodd Cymdeithas Tai Sir Fynwy beilot 'Safon Aur Gwagleoedd' ar draws nifer o'n cartrefi. Nod hyn oedd mynd i'r afael â llai o alw am rai mathau o eiddo, lefelau anfodlonrwydd gan gwsmeriaid ynghylch eu cartref newydd a chyfraddau gwrthod ar y pwynt cynnig mewn bron i chwarter yr holl gartrefi.

Roedd y safon aur yn golygu bod gwaith ychwanegol wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod gwagle gan gynnwys addurno llawn, gosod carpedi, cwblhau'r holl atgyweiriadau nad oedd yn hanfodol a thorri nôl / tacluso gerddi.

Dangosodd gwerthusiad y prosiect fod effaith y peilot yn gadarnhaol ac yn niferus gan gynnwys:

- Mwy o foddhad Tenantiaid
- Mwy o foddhad Staff
- Llai o gyfraddau gwrthod
- Targedau wedi'u cyflawni ar amser gweithdroad gwagleoedd
- Mwy o gynigion am bob eiddo a hysbysebiri (trwy ein Gosodiadau ar sail dewis)

Cyflwynwyd yr achos i'r Bwrdd. O ran y canlyniadau gwerth ychwanegol, a'r gymeradwyaeth ar gyfer safon gwagle newydd yn 2017, cyflwynwyd safon gwagle uwch ar draws holl eiddo gwag Tai Sir Fynwy, yn cynnwys:

1. Glanhau proffesiynol i bob eiddo
2. Addurno pob ystafell, nad yw o safon dda
3. Uwchraddio gwaith SATC yn ystod cyfnod gwagle
4. Cwblhau atgyweiriadau hanfodol yn ystod cyfnod gwagle
5. Carpedi ym mhob un o'r fflatiau
6. Tacluso'r gerddi a thorri'n ôl




Yn ychwanegol at y canlyniadau uchod, cofnodwyd cydberthynas rhwng y safon gwagleoedd gwell, gwell cynhaliaeth tenantiaeth a llai o ôl-ddyledion tenantiaeth gychwynnol.


Ym mis Rhagfyr 2018 cytunodd y Bwrdd i gyflwyno carped i bob gwagle yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae canlyniadau arolwg boddhad yn drawiadol; hyd yma yn 2019/20, mae 99.5% o denantiaid yn fodlon yn eu cartref eu hunain. Mae ein tenantiaid yn hynod gadarnhaol ynglŷn â safon yr eiddo a ddarparwn, a ninnau; Mae 92% yn falch ein bod wedi carpedu eu cartref ac mae 98% yn falch ein bod wedi addurno cyn iddynt symud i mewn gyda 93% yn ein sgorio fwy nag 8 allan o 10 ynghylch argymell Tai Sir Fynwy i eraill.

Cwestiwn Tenant Newydd: Oeddech chi'n hapus ein bod wedi rhoi carped yn eich eiddo?



Cwestiwn Tenant Newydd: Oeddech chi'n hapus ein bod wedi addurno eich eiddo?



Mae safon gwagleoedd wir yn helpu tenantiaid nad ydynt efallai'n gallu cwrdd â'r heriau corfforol ac ariannol o sefydlu eu cartref newydd eu hunain. Mae'n anhygoel sylweddoli na fyddwn yn 2020 yn cwblhau ymweliad 9 mis arall, â thenant cychwynnol a symudodd i mewn i eiddo safonol gwagle Tai Sir Fynwy, i ddarganfod nad ydyn nhw wedi carpedu eu cartref oherwydd nad ydyn nhw'n gallu ei fforddio. Mae safon gwagleoedd uchel yn bwysig i'n cwsmeriaid ac mae'n gwneud synnwyr busnes da, o ran gwell boddhad, perfformiad ac enw da.

Mae ymchwili yn awgrymu po uchaf y fanyleb gwagle, y lleiaf o amser y bydd yr eiddo'n aros yn wag (mewn ardaloedd 'anodd eu gosod' heb fawr o alw) ac mae tenantiaid yn fwy tebygol o aros yn hirach, byw bywydau hapusach ac iachach. Yn ystod 2017-18, mae'r ystadegau'n nodi bod 43,099 o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent²³. Os yw pobl yn ymfalchïo yn eu cartrefi, maent yn fwy tebygol o dalu eu rhent.²⁴

²³<https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Housing/Social-Housing-Rent-Arrears/tenanciesinarrearsat31march-by-year-provider-duration>

²⁴https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2019/03/190327-Housing-insecurity-and-mental-health-in-Wales_final.pdf

CYDNABYDDIAETHAU

Hoffem ddiolch i *Greenstream Flooring* am eu hysbrydoliaeth barhaus, eu hymroddiad a'u cefnogaeth trwy'r broses o gasglu tystiolaeth ac ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl denantiaid a landlordiaid a gwblhaodd eu harolygon a rhannu gwybodaeth ehangach gyda ni. Yn ogystal â Thai Cymunedol Cymru a Sefydliad Bevan am eu cefnogaeth a'u cymorth.

Hoffem hefyd ddiolch i Karen Wontner a gefnogodd ni i dynnu'r adroddiad at ei gilydd ac a roddodd ei ffioedd i *Habitat for Humanity*: <https://www.habitat.org/emea>, sefydliad tai nid er elw sy'n gweithio i rymuso pobl yng nghymunedau tlotaf y byd i oresgyn y diffyg cronig o dai gweddus.

Atodiad 1 – siartiau a ffigurau

Tabl 1: Diwydiant cyflogaeth yn ôl deiliadaeth

Diwydiant	% o'r holl categorïau rhwng 16 a 65 oed sy'n byw mewn tai cymdeithasol	% o'r holl categorïau rhwng 16 a 65 oed sy'n byw mewn mathau eraill o ddaliadaeth
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	1.14%	2.08%
Cynhyrchu	11.23%	13.02%
Ynni a Dŵr	2.18%	2.41%
Adeiladu	8.63%	10.00%
Dosbarthiad, Gwestai a Bwytai	27.01%	17.67%
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	7.87%	7.55%
Cyllid, Eiddo Tiriog, Gweithgareddau Proffesiynol a Gweinyddol	11.13%	12.83%
Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd	26.48%	30.44%
Arall	4.34%	4.00%

Tabl 2: Cyflogaeth yn ôl categori galwedigaeth

Categori o alwedigaeth	% o'r holl categorïau rhwng 16 a 65 oed sy'n byw mewn tai cymdeithasol	% o'r holl categorïau rhwng 16 a 65 oed sy'n byw mewn mathau eraill o ddaliadaeth
1. Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	4.43%	11.78%
2. Galwedigaethau proffesiynol	4.45%	18.13%
3. Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	5.16%	12.05%
4. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	7.27%	9.22%
5. Galwedigaethau crefft medrus	13.65%	16.53%
6. Galwedigaeth, hamdden a galwedigaethau gwasanaeth eraill	15.68%	7.56%
7. Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid	11.40%	5.62%
8. Gweithwyr prosesau a pheiriannau	14.47%	9.86%
9. Galwedigaethau elfennol	23.49%	9.25%

Tabl 3: Dosbarthiad yn ôl NS-SEC

Daliadaeth yn ôl Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC)	% pobl 16-65 oed sy'n byw mewn tai cymdeithasol	% pobl 16-65 oed sy'n byw mewn mathau eraill o ddaliadaeth
Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch	1.79%	11.39%
Cyflogwyr mawr a galwedigaethau rheoli a gweinyddol uwch	0.59%	2.68%
Galwedigaethau proffesiynol uwch	1.20%	8.71%
Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is	9.09%	23.39%
Galwedigaethau canolradd	7.96%	11.46%
Cyflogwyr bach a gweithwyr cyfrif eu hunain	6.48%	12.75%
Galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is	9.18%	10.09%
Galwedigaethau lled-arferol	23.42%	13.55%
Galwedigaethau arferol	26.04%	12.53%
Erioed wedi gweithio a di-waith tymor hir	14.39%	3.07%
Erioed wedi gweithio	9.95%	2.04%
Di-waith tymor hir	4.44%	1.02%
Heb ei ddsbarthu	1.66%	1.77%
Myfyrwyr llawn amser	1.66%	1.77%

Tabl 4, Daliadaeth yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd

Cyfansoddiad Aelwydydd	% o bobl mewn tai rhent cymdeithasol	% o bobl mewn mathau eraill o ddeiliadaeth
Aelwyd un person: Cyfanswm	42.38%	35.86%
Un teulu yn unig: Cyfanswm	52.36%	50.99%
Un teulu yn unig: Priod neu bâr partneriaeth sifil un rhyw: Cyfanswm	15.55%	15.99%
Un teulu yn unig: Priod neu bâr partneriaeth sifil un rhyw: Dim plant	5.22%	5.62%
Un teulu yn unig: Priod neu bâr partneriaeth sifil un rhyw: Efo plant	7.18%	8.78%
Un teulu yn unig: Pâr sy'n cyd-fyw: Cyfanswm	9.72%	16.12%
Un teulu yn unig: Pâr sy'n cyd-fyw: Dim plant		
	2.53%	9.10%
Un teulu yn unig: Pâr sy'n cyd-fyw: Efo plant		
	6.53%	6.73%
Un teulu yn unig: Rhiant sengl: Cyfanswm	22.98%	16.60%
Un teulu yn unig: Rhiant sengl: Efo plant	17.29%	14.20%
Mathau eraill o aelwydydd: Efo plant	2.53%	2.44%

Tabl 5: Daliadaeth gyda char neu fan yn ôl nifer y preswylwyr arferol sy'n 17 oed neu'n hŷn ar yr aelwyd

Daliadaeth	% o aelwydydd yn y categori: dim ceir na faniau	% o aelwydydd yn y categori: 1 car neu fan ar yr aelwyd	% o aelwydydd yn y categori: 2 (neu fwy) o geir neu faniau yn yr aelwyd
Rhentu cymdeithasol	0.531895	0.383354	0.084751
Math arall o ddaliadaeth	0.201941	0.433955	0.364104